**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

18 Hydref 2023

Trydydd cyfarfod Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE

Annwyl Delyth,

Fel y gwyddoch, mae'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol yn chwarae rôl bwysig o ran goruchwylio gweithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE ac unrhyw gytundebau rhyngddynt yn y dyfodol, ac ef yw'r unig gorff a all ddwyn i gyfrif y Cyngor Partneriaeth, sy'n cynnwys cynrychiolwyr y Comisiwn Ewropeaidd a Gweinidogion Llywodraeth y DU.

Gwnaethom gynrychioli'r Senedd yn nhrydydd cyfarfod y Cynulliad Partneriaeth Seneddol ar 3-4 Gorffennaf. Yn ystod y cyfarfod hwn, cynhaliodd y Cynulliad Partneriaeth Seneddol drafodaethau pwysig ar nifer o faterion. Gwnaeth grŵp trafod ar symudedd dynnu sylw at y materion parhaus i sector y celfyddydau a diwylliant o ran teithio a mynd ar daith. Roeddem yn gallu tynnu sylw at dystiolaeth ar y mater hwn a gasglwyd gan eich Pwyllgor yn ei ymchwiliad i gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon, a amlygodd fod problemau o hyd er gwaethaf yr Ardal Deithio Gyffredin.

Ailadroddodd y grŵp trafod yr argymhelliad a wnaed yn flaenorol i Gyngor Partneriaeth y Cytundeb y dylai'r UE a'r DU negodi cytundeb cynhwysfawr i ganiatáu i artistiaid deithio a gweithio yn yr UE a'r DU.

Ysgrifennwn atoch i dynnu eich sylw at ein hadroddiad byr ar ganlyniadau'r cyfarfod, gan obeithio y bydd o ddiddordeb i'ch Pwyllgor.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Luke Fletcher AS
Aelod
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg